PWYLLGOR ARCHWILIO

Dydd Gwener, 18 Rhagfyr 2020

YN BRESENNOL: Y Cynghorydd T.M. Higgins (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr:
K.V. Broom, K.Davies, T.M. Higgins, G.H. John, A.G. Morgan, B. Thomas, D.E. Williams a/ac J. James

Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:
C. Moore, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol
H. Pugh, Pennaeth Dros Dro Archwilio, Riag a Chaffael
M Mason, Museum Development Manager
C. Powell, Prif Archwilydd
S. Rees, Cyfieithydd Ar Y Pryd
J. Corner, Swyddog Technegol
M.S. Davies, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
R. Lloyd, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
E. Bryer, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
M. Evans Thomas, Prif Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

Siambr, Neuadd y Sir - 10.00 - 11.05 yb

1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB.

Cafwyd ymddiheuriad am absenoldeb gan y Cynghorydd B.A.L. Roberts.

2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL.

Ni chafwyd dim datganiadau o fuddiant personol.

3. Y DIWEDDARAF YNGHYLCH Y CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL 2020/21.

Bu'r Pwyllgor yn ystyried adroddiad a roddai'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd oedd yn cael ei wneud o ran gweithredu Cynllun Archwilio Mewnol 2020/21.

Dywedodd y Pennaeth Refeniw a Chydymffurfiaeth Ariannol fod perfformiad ar 52% ar hyn o bryd yn erbyn targed o 55% a oedd yn dangos pa mor dda y mae'r tîm wedi bod yn gweithio yn ystod cyfnod mor anodd. Rhoddodd y wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am ddigwyddiadau ers iddi baratoi'r adroddiad. Oherwydd y cynnydd sylweddol mewn achosion o covid yn Sir Gaerfyrddin, roedd angen staff ychwanegol ar frys i gynorthwyo'r tîm Profi Olrhain Diogelu ac yn gynharach yr wythnos hon rhyddhawyd dau aelod o staff o'i thîm ar sail hanner amser yr un a oedd yn cyfateb i un aelod o staff llawn amser. Er mwyn darparu ar gyfer adleoli staff, ailedrychwyd ar y rhaglen waith a phenderfynwyd symud sgrinio marwolaethau a'r adolygiad o Reoli Perfformiad i raglen waith y flwyddyn nesaf.

Gofynnwyd y cwestiwn canlynol mewn perthynas â'r adroddiad:-

- Pan ofynnwyd am iechyd a llesiant staff ac a oedd llawer o absenoldebau staff, eglurodd y Pennaeth Refeniw a Chydymffurfiaeth Ariannol fod llesiant staff yn hollbwysig drwy'r Awdurdod cyfan. Mae llawer o gymorth a chyngor ar gael ar-lein. O ran y Tîm Archwilio, cadarnhaodd eu bod i gyd yn iach ac yn gweithio gartref. Cynhelir cyfarfodydd tîm yn rhithwir bob wythnos ac mae rheolwyr yn cadw mewn cysylltiad â'r staff yn rheolaidd i sicrhau eu bod yn iawn.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn y diweddariad o Gynllun Archwilio Mewnol 2020/21.

4. BLAENRHAGLEN GWAITH Y PWYLLGOR ARCHWILIO.

Bu'r Pwyllgor yn ystyried adroddiad a oedd yn manylu ar yr adroddiadau fydd yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor eu hystyried yn ystod cylch cyfarfodydd 2020/21.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn yr adroddiad.

5. ADRODDIADAU CYNNYDD:

5.1. DIWEDDARDIAD CYNLLUN GWEITHREDU AMGUEDDFEYDD SIR GAR.

Gan gyfeirio at gofnod 7 o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Ionawr 2020, rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i'r wybodaeth ddiweddaraf am Gynllun Gweithredu Amgueddfeydd Sir Gaerfyrddin a oedd yn adolygu cynnydd yn erbyn y pedwar argymhelliad a wnaed gan yr Adain Archwilio Mewnol yn adolygiad 2016/17, a gofnodwyd fel 26 cam gyda dangosyddion llwyddiant mesuradwy. Hwn oedd y 5ed adroddiad diweddaru ynghylch Cynllun Gweithredu Gwasanaeth Amgueddfeydd 2016/17 a gyflwynwyd i'r Pwyllgor.

Nodwyd bod safonau mewn safleoedd, gofal casgliadau a rheolaeth yn parhau i gynyddu ar draws y gwasanaeth amgueddfeydd wrth i gynnydd gael ei wneud o ran sefydlu'r seilwaith, y systemau a'r arferion gwaith i gyflawni'r newidiadau hirdymor a argymhellir gan yr Archwiliad Mewnol.

Dywedodd y Rheolwr Datblygu Amgueddfeydd wrth y Pwyllgor ei bod yn falch o allu rhannu'r cynnydd cadarnhaol a wnaed. Mae 14 o'r 26 o gamau gweithredu a nodwyd wedi'u cwblhau ac mae'r 12 arall yn cael eu gwneud.

Codwyd y cwestiynau canlynol wrth drafod yr adroddiad:-

- Cyfeiriwyd at y ffaith bod y term "dim cynnydd pellach oherwydd tarfu ar y gwasanaeth" yn ymddangos yn eithaf aml ac awgrymwyd efallai y dylid symud yr adolygiad 12 mis ymlaen a dod yn ôl i'r Pwyllgor ar ôl hynny. Y consensws barn oedd bod cynnydd sylweddol wedi'i wneud gan y gwasanaeth a dylai fynd yn ôl i'r cylch archwilio yn awr.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL

5.1.1 dderbyn yr adroddiad a nodi'r cynnydd;

5.1.2 bod Amgueddfeydd Sir Gaerfyrddin yn cael eu cynnwys yng Nghynllun Archwilio 2021/22.

6. CYNNYDD O RAN ARGYMHELLON YR ADRODDIAD RHEOLEIDDIO.

Bu'r Pwyllgor yn ystyried adroddiad yn amlinellu'r cynnydd a wnaed ar argymhellion yr adroddiad rheoleiddiol, yn unol â gofynion Deddf Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 sy'n ei gwneud yn ofynnol i Bwyllgorau Archwilio ddilyn argymhellion adroddiadau rheoleiddiol

Roedd adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru ar Effeithiolrwydd y Pwyllgor Archwilio (Gorffennaf 2018) yn cynnwys Cynnig ar gyfer Gwella y dylid cryfhau'r trefniadau ar gyfer olrhain y camau a gymerwyd i fynd i'r afael ag argymhellion mewn adroddiadau rheoleiddiol. Roedd y broses o adrodd yn rheolaidd i'r Pwyllgor Archwilio yn mynd i'r afael â'r cynnig hwn.

Codwyd y cwestiynau/sylwadau canlynol wrth drafod yr adroddiad:-

- Cyfeiriwyd at y ffaith nad oedd yr amcan cyntaf wedi cyrraedd y targed ac mai'r dyddiad targed oedd 03/19 a oedd cyn covid a gofynnwyd i swyddogion a oedd angen adolygu dyddiadau targed er mwyn sicrhau bod materion a nodwyd yn cael sylw. Eglurodd y Pennaeth Refeniw a Chydymffurfiaeth Ariannol mai'r dyddiad oedd 2019 i ddechrau ond diwygiwyd hynny i 2020. Sefydlwyd Grŵp Strategaeth Rheoli Pobl i edrych ar yr amcan hwn. Y bwriad yw adolygu amcanion y Grŵp er mwyn symud ymlaen. Rhoddodd sicrwydd i'r Pwyllgor fod hwn yn amcan o hyd;
- Cyfeiriwyd at y 7% o'r argymhellion rheoleiddiol a oedd heb gyrraedd y targed a gofynnwyd i swyddogion pam yr oedd pob un o'r dyddiadau targed yn y gorffennol. Dywedodd y Pennaeth Refeniw a Chydymffurfiaeth Ariannol wrth y Pwyllgor y byddai'n rhannu'r sylw hwn â swyddogion gyda'r nod o wella'r ffordd yr adroddir ar dargedau;
- Tynnwyd sylw at y ffaith bod rhai o'r amcanion wedi'u pennu cyn covid a mynegwyd pryder ei bod yn bosibl nad yw rhai o'r rhain yn flaenoriaeth erbyn hyn gan y bydd materion eraill wedi dod yn bwysicach. Gofynnwyd i swyddogion a ddylid edrych eto ar yr amcanion yng ngoleuni hyn. Rhoddodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol sicrwydd i'r Pwyllgor fod y tîm rheoli yn edrych ar yr amcanion a'r blaenoriaethau yn rheolaidd er mwyn canfod a oes angen ail-ganolbwyntio;
- Er mwyn rhoi gwell gwerthfawrogiad i'r Pwyllgor o'r cynnydd sy'n cael ei wneud, awgrymwyd y dylid cyflwyno adroddiad bob chwe mis i'r Pwyllgor yn y dyfodol yn hytrach nag adroddiad blynyddol

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL

6.1 Bod yr adroddiad yn cael ei dderbyn;

6.2 bod y Pwyllgor yn cael adroddiadau cynnydd chwe misol ar argymhellion adroddiadau rheoleiddiol yn y dyfodol.

7. COFNODION GRWPIAU PERTHNASOL I'R PWYLLGOR ARCHWILIO:

7.1. COFNODION Y GRWP LLYWIO RHEOLI RISG.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL fod cofnodion cyfarfod y Grŵp Llywio Rheoli Risg a gynhaliwyd ar 6 Tachwedd 2020 yn cael eu derbyn.

7.2. COFNODION Y GRWP LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL.

Cyfeiriwyd at funud rhif 7 a mynegwyd pryder mewn perthynas â'r datganiad am "Aelodau'r Bwrdd Gweithredol sy'n arwain Pwyllgorau Craffu". Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor bod Aelodau'r Bwrdd Gweithredol bellach yn mynychu cyfarfodydd Pwyllgorau Craffu i gyflwyno adroddiadau sy'n dod o fewn eu portffolio yn hytrach na bod adroddiadau'n cael eu cyflwyno gan swyddogion. Rhoddodd y Pennaeth Refeniw a Chydymffurfiaeth Ariannol wybod i'r Pwyllgor y byddai'n trefnu i'r geiriad gael ei ddiwygio.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn cofnodion cyfarfod y Grŵp Llywodraethu Corfforaethol a gynhaliwyd ar 20 Medi 2020

7.3. COFNODION Y PANEL GRANTIAU.

Cyfeiriwyd at yr ail bwynt bwled ar dudalen 2 a mynegwyd pryder o ran y datganiad "Adolygiad i'w gynnal ynghylch a oes trefniadau cyllideb ar y cyd ar waith..." gan y dylai swyddogion fod yn ymwybodol iawn o unrhyw drefniadau ar y cyd. Cytunodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol y byddai swyddogion yn gwbl ymwybodol o unrhyw drefniadau ar y cyd. Cytunodd i wirio ffynhonnell y geiriad a threfnu iddo gael ei ddiwygio.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn cofnodion cyfarfod y Panel Grantiau a gynhaliwyd ar 3 Medi 2020.

8. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR A GYNHALIWYD AR 16EG HYDREF, 2020.

Cyfeiriwyd at restr bresenoldeb y rhai a oedd yn bresennol yn y cyfarfod a nodwyd bod Mrs Julie James wedi'i chynnwys yn anghywir yn y rhestr o gynghorwyr sir a oedd yn bresennol yn hytrach nag fel aelod pleidleisio allanol.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL lofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a gynhaliwyd ar 16 Hydref 2020 gan eu bod yn gywir.

CADEIRYDD	DYDDIAD

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire
County Council